**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | C Richards |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Witchhazel Wildwood | Rhwydwaith Tyfu Cymunedol |
| Neil Barry | Rhwydwaith Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe |
| Owen Griffiths | Graft/Llysiau'r Vetch |
| Tony Roper | Rhwydwaith Cydgynhyrchu |
| Kat Watkins | Rhwydwaith Cydgynhyrchu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Andrew Davies

---

## 12 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd L V Walton gysylltiad personol â chofnod rhif 14 – Trafodaeth ynghylch Tyfu Bwyd Cymunedol.

## 13 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 14 Trafodaeth - Tyfu Bwyd Cymunedol.

Cyflwynodd Joanne Portwood, Swyddog Polisi a Strategaeth a'r Cadeirydd adroddiad a roddodd wybodaeth i'r Pwyllgor am Bolisi Cynllun Tyfu Bwyd Cymunedol a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Modelau/enghreifftiau o'r prosiectau a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir;
- Enghreifftiau o faterion a wynebwyd gan brosiectau blaenorol, e.e. diogelwch safleoedd;
- Llwyddiant cynllun Sir Fynwy a sut yr oedd wedi dod â'r gymuned at ei gilydd;
- Llwyddiant Prosiect Tyfu Bwyd Todmorden;
- Tir/safleoedd y gellir/na ellir eu defnyddio, enghreifftiau o safleoedd agored a'r dull a fabwysiedir yn y safleoedd hyn;
- Sicrhau bod y bobl â'r angen mwyaf yn elwa o'r bwyd;
- Y gwahanol fodelau sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru, enghreifftiau o gefnogaeth a dderbyniwyd a diffyg tîm tyfu cymunedol o fewn Cyngor Abertawe;
- Cydnabod maint y gwaith sydd ei angen yn Abertawe o'i gymharu â chymunedau mwy gwledig, y materion gwirioneddol sy'n gysylltiedig â thlodi sy'n wynebu pobl yn Abertawe a'r angen am archwiliad o'r holl dir addas;
- Cydnabod pwysigrwydd addysgu pobl, yr adnoddau sydd eu hangen a chynllunio ymlaen llaw;
- Y defnydd o gyfleusterau banc bwyd cyfredol gan brosiectau e.e. Clydach, diffyg sgiliau unigol pobl i ddefnyddio bwyd ffres a chysylltu â banciau bwyd i'w dosbarthu i'r rheini y mae ei angen fwyaf;
- Cyflwyno cymhellion ariannol ar gyfer offer etc., y diffyg cyllid sydd ar gael i ganiatáu i'r cyngor ddarparu cymorth ariannol;
- Sicrhau bod y tir sydd ar gael o ansawdd digonol i dyfu arno, yr angen am strategaeth cydnerthedd bwyd ar gyfer Abertawe, y swm mawr o dir sy'n eiddo i'r cyngor a goresgyn biwrocratiaeth i ddatblygu’r mater;
- Manteision tyfu/bwyta bwyd ffres i les ac iechyd meddwl;
- Cysylltu unrhyw brosiectau tyfu bwyd cymunedol â'r Rhwydwaith Tlodi Bwyd/landlordiaid lleol;
- Ymwybyddiaeth o lygredd a ffactorau amgylcheddol eraill.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y trafodaethau.

## 15 Cynllun Gwaith 2020-2021.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2020-2021.

Rhoddodd ddiweddariadau i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Polisi Tegwch Gwyrdd, y Polisi Dyledion Corfforaethol, y defnydd o fudd-daliadau, Polisi Credyd Fforddiadwy a'r rhwydwaith cydgynhyrchu.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad a'r diweddaraf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.58 pm

**Cadeirydd**